

---

# EICH ADDEWID EICH PLANED

---

PECYN CYMORTH  
I AWDURDODAU  
LLEOL

#AwrDdaear



8.30PM AR  
24 MAWRTH

AWR  
DDAEAR 



RYDYN NI EISIAU ICHI



GYMRYD RHAN  
A GWNEUD  
ADDEWID



**BYDD**  
CANNOEDD O  
FILIYNAU



AM

**8.30PM**

AR

NOS SADWRN

**24**  
MAWRTH

YN DIFFODD

**EU**

GOLEUADAU



AM AWR

I NEWID

**UN**

PETH I  
HELPU EIN



# BETH YN UNION YW AWR DDAEAR?

Am 8.30pm ar nos Sadwrn 24 Mawrth 2018, bydd cannoedd o filiynau o bobl ar draws y byd yn diffodd eu goleuadau am awr i ddangos eu hymrwymiad i warchod ein planed.

Y llynedd cymerodd 9 miliwn o bobl ran yn y Deyrnas Unedig yn unig, wrth i dirnodau cenedlaethol fel yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, Stadiwm Principality, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Chastell Caernarfon ddiffodd eu goleuadau i ddangos cefnogaeth. Eleni mae arnom ni angen i hyd yn oed mwy o bobl gymryd rhan. Mae'n adeg dyngedfennol i warchod y blaned sy'n gartref inni. Ni yw'r genhedlaeth gyntaf i gael profiad o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – a'r olaf i allu ei atal. Rydyn ni hefyd yn gweld ein moroedd yn cael eu hysbeilio a'u mygu gan blastig a'r bwyd a fwydawn yn dinistrio ein coedwigoedd a chynefinoedd hanfodol.

Mae ymchwil wedi dangos bod traean ohonom ni'n teimlo'n ddi-rym ynghylch materion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae Awr Ddaear yn profi y gallwn, gyda'n gilydd, wneud gwahaniaeth. Mae'r atebion gennym ni; ond mae'n rhaid inni eu cyflawni.



© BETINA SKOVBRO / WWF CYMRU



© MAVERICK PHOTO AGENCY / CALLUM BENNETTS / WWF-UK

# GWNEUD ADDEWID

## SUT ALLWN NI GYMRYD RHAN?

Eleni, rydyn ni'n gofyn ichi wneud #PromiseForThePlanet: rydyn ni eisiau i bawb addo newid un peth yn ei fywyd pob dydd a fydd yn helpu i warchod ein planed. Gallai hwn fod yn addewid a wnewch fel sefydliad, neu'n un yr ydych yn annog eich gweithwyr i'w wneud gartref ac yn y gwaith. Gallech benderfynu **bwyta llai o gig, peidio â defnyddio bagiau plastig, cario cwpan coffi aml dro** neu hyd yn oed **newid i gyflenwr ynni gwyrdd**. Efallai yr ymddengys yn beth bach, ond mae effeithiau mawr yn dechrau gyda champau bach.

Rydyn ni hefyd yn gofyn ichi ymuno â'r ymgyrch fyd-eang am **8.30pm ar nos Sadwrn 24 Mawrth**. Bydd miloedd o ddirnodau, sefydliadau, busnesau ac unigolion o gwmpas y byd yn diffodd eu goleuadau dianghenraid mewn arddangosiad gwledol o'u hymrwymiad i gyflawni'r newidiadau cadarnhaol mae ar ein byd eu hangen.

## PAM CYMRYD RHAN YN AWR DDAEAR WWF?

Rydyn ni'n cydnabod bod gan **awdurdodau lleol** ran hanfodol i'w chwarae, gan arwain eu dinasoedd a'u cymunedau i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae Awr Ddaear WWF yn rhoi cyfle unigryw ichi fod yn rhan o ddigwyddiad byd-eang sy'n arbennig o berthnasol ac apelgar yn lleol. Gyda'ch cymorth chi, gallwn fod yn wirioneddol uchelgeisiol a chael hyd yn oed mwy o bobl i gymryd rhan.

**Bydd cymryd rhan yn Awr Ddaear yn helpu i:**

- **Dynnu sylw at y gwaith rydych yn ei wneud yn lleol** i fynd i'r afael â materion amgylcheddol allweddol
- **Ymgysylltu â'ch cymuned leol** trwy ei hannog i gynnal digwyddiadau i ddathlu Awr Ddaear a gwneud #PromiseForThePlanet
- **Creu sylw yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol** i'ch awdurdod lleol, yn enwedig os ydych chi'n cynnal digwyddiad diffodd goleuadau. Mae gennym ni becyn cymorth llawn syniadau a deunyddiau i'ch helpu i hyrwyddo'ch digwyddiad neu'ch #PromiseForThePlanet yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol.



© EDWARD PARKER / WWF



© GLOBAL WARMING IMAGES / WWF



© SHUTTERSTOCK / RICH CAREY / WWF

## CYMRYD RHAN:

**1** Trefnwch i ddiffodd y goleuadau dianghenraid yn eich adeiladau am awr ar 24 Mawrth 2018 am 8.30pm. Cofiwch roi gwybod inni ym mha adeiladau rydych chi'n diffodd y goleuadau fel y gallwn eu cynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol a'ch ychwanegu at ein map ar-lein. Gallwch anfon neges e-bost at **earthhourofficer4@wwf.org.uk**.



**2** Gallwch wneud addewid hefyd, fel newid i gyflenwr ynni gwyrdd neu ymrwmo i droi'ch fflyd trafniadaeth yn gerbydau trydan erbyn dyddiad penodol. Gallech hefyd annog eich staff (neu'ch etholwyr) i wneud #PromiseForThePlanet a'i gofnodi ar ein gwefan.



**3** Trefnu digwyddiad Awr Ddaear. Gallech drefnu cyfle i'r cyhoedd gyfrif i lawr i adeg diffodd y goleuadau, dathliad cymunedol yng ngolau canhwylau neu hyd yn oed cynnal digwyddiad edrych ar y sêr. Rhowch wybod inni am eich cynlluniau trwy anfon neges e-bost at **earthhourofficer4@wwf.org.uk** fel y gallwn ni eu hyrwyddo hefyd. Os ydych chi'n cynnal digwyddiad mawr, mae gennym ni amrywiaeth o ddeunyddiau (posteri a chardiau post) y gallwch eu defnyddio, felly cysylltwch â'r tîm ac fe anfonwn ni hynny allwn ni.



**4** Cysylltwch â'ch cyfryngau lleol i ddweud wrthyn nhw eich bod chi'n cymryd rhan yn Awr Ddaear WWF. Mae'n ffordd wych i arddangos rhywfaint o'r gwaith rydych yn ei wneud eisoes i warchod ein planed. Gallwch lawrlwytho ein templedi ar gyfer datganiadau i'r wasg o **wwf.org.uk/awrddaear**.



**5** Gallwch lawrlwytho amrywiaeth fawr o adnoddau di-dâl penigamp o'n gwefan: lluniau clawr i Facebook a Twitter, baneri gwe, poster, cardiau post a llawer mwy!



**6** Cadwch mewn cysylltiad trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol:



 @WWFCymru

 @WWFCymruWales

 @WWFCymru

 youtube.com/WWFCymru



© WWF / NINA MUNN

## SYNIADAU YCHWANEGOL:

### Awdurdodau Lleol

- 1** Defnyddiwch ein templedi ar gyfer trydariau, lluniau a chopi ar gyfer cylchlythyrau ar eich gwefan a phlatfformau cymdeithasol i annog eich cymuned leol a busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol i gofrestru a chymryd rhan.
- 2** Efallai y bydd gan y wasg leol ddiddordeb mewn cyfle i dynnu lluniau gydag uwch aelodau o staff y cyngor neu bobl bwysig, gyda grŵp neu ysgol leol.
- 3** Anogwch dirnodau eraill yn eich ardal a phartneriaid i ddiffodd eu goleuadau a bod yn rhan o'r digwyddiad anhygoel hwn.
- 4** Gallech gynnal digwyddiad arbennig y tu allan i oriau swyddfa, yng ngolau canhwylau, yn ystod yr awr.
- 5** Gallech gynnwys eich staff trwy'ch sianelau cyfathrebu mewnol a'u hannog i gofrestru a chymryd rhan.
- 6** Achubwch ar gyfle Awr Ddaear i wneud ymrwymiad i wneud eich awdurdod lleol hyd yn oed yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Gadewch i'ch creadigrwydd eich arwain! Rydyn ni'n fodlon eich cefnogi gymaint ag y gallwn a bydd ein tîm yn hapus i drafod unrhyw syniadau ychwanegol sydd gennych ynghylch dathlu Awr Ddaear eleni.

# #PromiseForThePlanet

# BATHODYN AWDURDOD LLEOL DISGLAIR AWR DDAEAR

Y llynedd cyflwynasom Fathodyn Awdurdod Lleol Disglair, a gafodd dderbyniad da iawn. Roeddem wrth ein bodd bod hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mynd yr ail filltir a chael eu Bathodyn Awdurdod Lleol Disglair. Eleni, rydyn ni'n eich annog i gymryd rhan fel y byddwch i gyd yn ddisglair!

Mae'n fathodyn digidol arbennig y gallwch ei ddefnyddio ar eich gwefan, mewn cyhoeddiadau ac mewn llofnodion negeseuon e-bost, ac i ymffrostio amdano ar y cyfryngau cymdeithasol.

Os ydych chi'n ein helpu i ledu'r gair am Awr Ddaear ac yn cyflawni'r pum peth canlynol, byddwn yn rhoi Bathodyn Awdurdod Lleol Disglair Awr Ddaear WWF ichi.

Ar ôl ichi gwblhau'r rhestr wirio, byddwn yn sicrhau y cewch eich bathodyn i'w ddefnyddio ar unwaith a byddwn yn helpu i hyrwyddo'ch llwyddiant ar y cyfryngau cymdeithasol yn y cyfnod cyn Awr Ddaear.



© DAN GREEN / AWAFUKWAL EST

## GWEITHGAREDDAU CRAIDD

### DIFFODD Y GOLEUADAU:

Diffoddwch y goleuadau yn yr holl adeiladau rydych yn eu rheoli am awr ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm.

### GWNEUD ADDEWID:

Rhowch wybod inni beth yw #PromiseForThePlanet eich awdurdod. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o newid i gyflenwr ynni gwyrdd i ymrwmo i droi'ch fflyd trafndiaeth yn gerbydau trydan.

## GWEITHGAREDDAU'R BATHODYN

### CYMRYD RHAN:

Hyrwyddwch Awr Ddaear WWF i'ch staff trwy negeseuon e-bost a'ch mewnwyd. Anogwch nhw i gofrestru fel unigolion, gwneud eu #PromiseForThePlanet eu hunain a chymryd rhan yn y digwyddiad yn bersonol.

### YMGYSYLLTU:

Defnyddiwch eich gwefan, cylchlythyrau, Twitter a Facebook i annog y cyhoedd i gofrestru, gan ddangos y gefnogaeth i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn eich ardal chi.

### HYRWYDDO:

Cyhoeddwch ddatganiad i'r wasg i hyrwyddo cefnogaeth eich cyngor i Awr Ddaear yn y cyfryngau lleol.

# COPI HYRWYDDO ENGHREIFFTIOL (I'W OLYGU YN ÔL YR ANGEN)

Ar nos Sadwrn 24 Mawrth 2018 am 8.30pm, bydd <<enw'r awdurdod lleol>> yn diffodd ein goleuadau yn <<enw'r lleoliad neu'r adeilad>> am awr i ddatlu Awr Ddaear WWF.

Bydd <<enw'r awdurdod lleol>> yn ymuno â miliynau o bobl, dinasoedd, cymunedau a thirnodau o gwmpas y byd mewn arddangosiad gweledol byd-eang o ymrwymiad i fynd i'r afael â materion amgylcheddol sy'n galw am sylw ar frys ac i warchod ein planed.

Mae <<enw'r awdurdod lleol>> hefyd yn gweithredu trwy wneud #PromiseForThePlanet i <<manyllion yr addewid>>. Mae ein gweithwyr hefyd yn cael eu hannog i wneud eu haddewidion eu hunain i newid un peth yn eu bywydau pob dydd a fydd yn helpu i warchod ein planed, o <<manyllion addewid un o'ch gweithwyr>> i <<manyllion addewid un o'ch gweithwyr>>. Rydym yn annog cymunedau lleol a phartneriaid yn <<enw'r dref, dinas yng Nghymru>> i wneud #PromiseForThePlanet ac ymuno ag ymgyrch fyd-eang Awr Ddaear ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm. Dangoswch eich cefnogaeth i fyd gwell!

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud addewid ewch i [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)



# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

## NEGSEUON ENGHREIFFTIOL AR GYFER FACEBOOK

Dangoswch eich ymrwymiad i warchod ein planed! Ymunwch â ni yn <<enw'r dref, dinas>> a diffoddwch eich goleuadau ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm ar gyfer #AwrDdaear WWF

### O fis Mawrth ymlaen

Rydym ni'n gwarchod y blaned trwy wneud #PromiseForThePlanet ar gyfer #AwrDdaear WWF! Ymunwch â ni a gwnewch addewid ar [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)

## NEGSEUON ENGHREIFFTIOL AR GYFER TWITTER

Rydym yn cefnogi #AwrDdaear WWF ar nos Sadwrn 24 Mawrth am 8.30pm. Ymunwch â ni! Cewch wybod mwy ar [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)

Rydym yn gwarchod y blaned trwy wneud #PromiseForThePlanet ar gyfer #AwrDdaear WWF. Ymunwch â ni a rhannwch eich addewid ar [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)

### Dydd Gwener 23 Mawrth 2018

Cymerwch ran yn #AwrDdaear @WWFCymru yfory am 8.30pm. Diffoddwch eich goleuadau a dangoswch eich ymrwymiad i warchod ein byd! [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)

### Dydd Sadwrn 24 Mawrth 2018

Cofiwch ei bod hi'n #AwrDdaear @WWFCymru heno am 8.30pm! Gwnewch eich #PromiseForThePlanet ar [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)

Mae #AwrDdaear WWF yn fyw nawr! Ymunwch â ni wrth ddiffodd y goleuadau am awr a rhannwch eich #PromiseForThePlanet ar [wwf.org.uk/awrddaeear](http://wwf.org.uk/awrddaeear)



# ANGEN MWY O GYMORTH?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu syniadau neu os ydych eisiau rhannu'ch cynlluniau, byddem wrth ein bodd i glywed oddi wrthych chi. Cysylltwch â thîm Awr Ddaear:  
[earthhourofficer4@wwf.org.uk](mailto:earthhourofficer4@wwf.org.uk)

 @WWFCymru

 @WWFCymruWales

 @WWFCymru

 [youtube.com/WWFCymru](https://youtube.com/WWFCymru)

## #AwrDdaear

You can join the global conversation  
Gallwch ymuno â'r sgwrs fyd-eang  
trwy chwilio am #Connect2Earth

8.30PM AR  
24 MAWRTH

AWR  
DDAEAR 

